

DATGANIAD I'R WASG GWYL FEL 'NA MAI - CRYMYCH 2024

Yn dilyn gwyliau llwyddiannus 2022 a 2023 fe fydd Gŵyl Fel 'Na Mai 2024 yn cael ei chynnal am y trydydd tro eleni ar ddydd Sadwrn Mai 4, a hynny unwaith eto ar safle Frenni Transport ym Mharc Gwynfryn, Crymych, trwy garedigrwydd a chefnogaeth parod Matthew Parry.

I'r llu sydd wedi cefnogi'r Wyl yn y gorffennol dylid nodi bydd 'na newid ar gynllun y safle eleni gyda'r prif fynedfa ar ochr ogleddol y safle a llwyfan Y Frenni ar yr ochr ddwyreiniol. Bydd 'na barcio ar safle Frenni Transport, ac ar leoliadau cyfagos o fewn i Barc Gwynfryn. Mae'r newid cynllun yn caniatáu trefniant llawer mwy hyblyg ar gyfer darparwyr lluniaeth a nifer o atyniadau newydd cyffrous ar gyfer mynychwyr gŵyl 2024. Y cyfan er mwyn gwella'ch profiad chi '*Fel'na Mai-wyr*'.

Os ydych am wersylla neu letya yn eich cartref symudol dros yr Wyl yna mae 'na ddarpariaeth ar eich cyfer, neu os ydych yn chwilio westy neu llety yn y cylch ewch i'n gwefan am fanylion ac awgrymiadau.

Yn ogystal â'r rhestr berfformio eang, mae 'na ehangu ar y gweithgareddau amrywiol a ddarperir ar gyfer plant â phobl ifanc yn ystod y p'nawn. Bydd y babelll blant a'r bws gweithgareddau yn fwrlwm o wneud a dweud, tra bydd cyfle i bobol ifanc recordio cân yn stiwdio recordio symudol y Corryn Du, neu chwilio ffordd mas o gymlethdod yr ystafelloedd dianc, atyniad newydd arall ar y safle eleni.

Mae'r arlwy cerddorol eleni yn rhagorol a dweud y lleia, gyda nifer fawr o enwau mwyaf amlwg y sîn Gymraeg yn ymweld â bro Preseli.

Yn ymddangos ar lwyfan **Foel Drigarn** yn ôl eu trefn mae :

Ysgol Bro Preseli, Ysgol Eglwysrwr, Cerddorion Gwerin Fel 'Na Mai, enillwyr gwobr Rich a Wyn 2024 y grwp roc cyffrous **Gelert, Edward H Pantrod** (Cleif Harpwood a Dafydd Pantrod a'r band), y bytholwyrdd **Dafydd Iwan**. Yn sgil llwyddiant ysgubol eu halbym newydd, **Cowbois Rhos Botwnnog**, Meistri pop roc y 1980au a'r 90au, **Jess**. Y canwr gyfansoddwr toreithiog, **Al Lewis a'r band**, ac ar ben y mast yn coronîr cwbl yr ecstrafagansa clyweledol **HMS Morris**.

Dyna chi restr anhygoel - ac mae 'na fwy!!

Ar lwyfan **Y Frenni Fawr**

Yn diddanu'r plant ar ddechrau'r p'nawn bydd yr hyfryd **Siani Sionc**. Yna cawn flas ar ganeuon pop breuddwyddiol a swynol **Danielle Lewis** o Gei Newydd. Nesa, bydd **Côr Bois Clwb Rygbi Crymych** yn codi'r to (ac ambell wydred wedyn!) ac yna mae pethe'n troi'n Roc a Rôl neu "sigl a charreg las" fel 'yn ni'n dweud ffor 'hyn.

Bydd enillwyr gwobr Richard a Wyn 2023, **Dros dro** yn ein diddanu unwaith eto cyn i **Alfa** y ddeuawd roc trwm o Lanrug chwythu'r gwe o'n clustie. Daw perfformiadau'r p'nawn i ben yng nghwmni'r band roc indie o Fôn **Fleur de Lys** â'u caneuon melodig cofiadwy.

Dyna chi 'de p'nawn cerddorol heb ei ail!

Yn arwain y cwbl eleni bydd Mirain Iwerydd, Radio Cymru. Bydd hi'n braf cael croesawu'r roces leol adre i Grymoch. Cofiwch fod 'na far trwyddedig ar y safle gydol yr **Ŵyl** trwy gydweithrediad Clwb Rygbi Crymoch a digonedd o luniaeth amrywiol gan arlwy-wyr lleol.

Cofiwch ymweld â'm gwefan am fanylion llawn o'r arlwy. Gyda chymaint i'w fwynhau, does dim rhyfedd bod tocynnau'n prinhau. Felly, hastwch i archebu eich tocyn chi cyn gynted ag y bo modd, ewch i felnamai.co.uk

Dewch i Joio!!